Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Julian Atkins
Cyfarwyddwr, Rheoli Cefn Gwlad a Thir
Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
Plas y Ffynnon
Ffordd Cambrian
Aberhonddu
LD3 7HP

Dyddiad/ Date: 10 Gorffennaf 2014

Annwyl Julian

**PARTHED: CYNLLUN RHEOLI YMWELWYR BANNAU BRYCHEINIOG - DRAFFT**

Diolch i chi am ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales ynghylch yr uchod, a dderbyniwyd ar 2 Mehefin 2014.

*Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyfuno gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Ein pwrpas yw sicrhau y bydd adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio yn gynaliadwy yn awr ac i'r dyfodol.*

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cefnogi llunio Cynllun Rheoli Ymwelwyr Bannau Brycheiniog ac wedi ymwneud â'r broses o'r cam cyntaf gyda'r gweithdy cychwynnol, ac rydym yn ddiolchgar i APCBB am hynny. Rydym yn edrych ymlaen at barhau i weithio mewn partneriaeth i gynorthwyo APCBB i gyflawni'r nodau a amlinellir yn y ddogfen ac a nodir yn y cynllun gweithredu. Anfonwyd ymateb gennym i'r drafft cyntaf ar 20 Medi 2013. Nid ydym yn credu bod rhai o'r pwyntiau a godwyd gan CNC yn yr ymateb hwn wedi cael sylw llawn, ac felly maent yn cael eu hailadrodd yn yr ymateb cyfredol.

Mae ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'i rannu'n bwyntiau cyffredinol (isod) a phwyntiau penodol sy'n ymwneud â thudalen neu isadran yn yr atodiad sydd ynghlwm.

***Pwyntiau cyffredinol***

1. Mae CNC yn croesawu'r dull o ddefnyddio tystiolaeth fel sail i'r adroddiad hwn a'r argymhelliad i ddatblygu a chyflwyno cynllun sy'n seiliedig ar safleoedd. Ers cyhoeddi'r drafft terfynol hwn, cyhoeddwyd adroddiad pwysig sy'n ychwanegu tystiolaeth bellach i'r maes hwn: *Rhoi Gwerth ar Barciau Cenedlaethol Cymru (LUC 2013) a gomisiynwyd gan CNC a Pharciau Cenedlaethol Cymru*. Gallai cyfeirio at hwn ychwanegu mwy o sylwedd i ganfyddiadau'r Cynllun Rheoli Ymwelwyr.

Ffôn/Tel: 01873 73 7018

Ebost/Email: jonathan.saville@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Cantref Court, Brecon Road, Abergavenny, Monmouthshire, NP7 7AX
Llys Cantref, Ffordd Aberhonddu, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 7AX

2. Rydym hefyd yn croesawu'r bwriad i ddefnyddio'r adroddiad hwn i ddiwygio'r adroddiad ar Gyflwr y Parc Cenedlaethol sydd yn ei dro yn llywio adolygiad o Gynllun Rheoli’r Parc Cenedlaethol. Mae'r dangosyddion a awgrymir sy'n cefnogi’r Rhinweddau Arbennig hefyd yn ddefnyddiol.

3. Ceir pwyslais sylweddol ar ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn datblygu atebion cynaliadwy i'r heriau niferus sy'n wynebu Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac mae hyn yn sicr yn unol â'r Dull Ecosystem sy'n cael ei hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru. Yn ychwanegol at hyn, efallai y byddai'n ddefnyddiol datblygu 'gwerthoedd' sy’n hawdd eu deall ar gyfer meysydd lle mae yna wasanaethau ecosystem sylweddol, e.e. mawndiroedd sydd wedi’u niweidio a maint ac ansawdd dŵr i lawr yr afon. Lle mae gormod o weithgareddau hamdden yn amharu ar wasanaethau ecosystem, bydd cael y gwerthoedd hyn yn helpu rhanddeiliaid i gyfrannu at benderfyniadau mwy gwybodus. Fe’ch cyfeiriwn at ein hymateb cynharach mewn perthynas â'r Dull Ecosystemau.

4. Mae rhai o'r safleoedd lle mae’r pwysau amgylcheddol yn fwy arwyddocaol hefyd yn safleoedd a warchodir (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) neu'n SoDdGA ac yn ACA), sy’n fater y bwriedir ei ddefnyddio hefyd fel dangosydd ar gyfer Cam Gweithredu A.2. Mae'r safleoedd hyn yn cynrychioli ardaloedd sydd ymhlith yr enghreifftiau gorau o gynefinoedd, rhywogaethau, daeareg a geomorffoleg yn y DU. Mae gwarchod a gwella’r safleoedd hyn hefyd yn ddyletswydd ar APCBB. Mae CNC yn cynghori y dylai materion sy'n deillio o nifer yr ymwelwyr a mathau eraill o ddefnydd uniongyrchol ac anuniongyrchol gan ymwelwyr ar safleoedd gwarchodedig fod yn flaenoriaeth uchel ac yn sgil hynny dylai’r camau rheoli ymwelwyr ar safleoedd gwarchodedig adlewyrchu hynny. Yn ogystal ag effeithiau uniongyrchol, ar rai safleoedd gall effeithiau anuniongyrchol ymwelwyr ar arferion rheoli megis pori gael effaith sylweddol ar ymarferoldeb rheoli i gyflawni amcanion eraill. O dan yr amgylchiadau hyn efallai y bydd angen dull ecosystemau/ehangach i ddarparu’r manteision gorau i'r cyhoedd.

5. Mae CNC yn teimlo y gallai'r cynllun hwn wneud defnydd ehangach o’r ddau adolygiad a gomisiynwyd gan y Cyngor Cefn Gwlad ar gynefinoedd sy’n agored i niwed a mapio. Gellid defnyddio’r mapio yn yr adroddiadau hyn hefyd i ddangos yn fwy clir y modd y mae cymaint o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn agored i niwed, ac felly helpu i bwysleisio adrannau eraill (e.e. 2.33-2.35). Os oes angen, mae CNC yn hapus i weithio gyda APCBB a'u contractwyr i ddarparu mapiau ac addasu'r adrannau perthnasol.

6. Gyda dynodiad y Warchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol byddai'n fuddiol cynnwys asesiad llawn o'r potensial ar gyfer sicrhau’r manteision mwyaf i'r sector twristiaeth a dangosyddion i gadw'r statws.

Ffôn/Tel: 01873 73 7018

Ebost/Email: jonathan.saville@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Cantref Court, Brecon Road, Abergavenny, Monmouthshire, NP7 7AX
Llys Cantref, Ffordd Aberhonddu, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 7AX

7. Ochr yn ochr â'r bwriad a nodwyd i wella tystiolaeth a chynyddu gwybodaeth am ymwelwyr cyfredol trwy gynnal arolwg sylweddol a chasglu data fel yr amlinellir yn adrannau 3.76 a 3.77, byddai'n ddefnyddiol ystyried tueddiadau rhagweladwy yn y dyfodol megis y boblogaeth sy'n heneiddio yn y DU, i helpu i lywio cynlluniau a blaenoriaethau.

8. Yn adran 3.72, Mynediad i Bawb, rydym yn nodi bwriad i barhau i fynd i'r afael â rhwystrau i hygyrchedd ac yn arbennig, pwysigrwydd darparu gwybodaeth. Yn y cyd-destun hwn, efallai y byddai'n ddefnyddiol cynnwys cyfeiriad at egwyddorion y mynediad lleiaf rhwystrol (MLlRh) fel y nodir yn nogfen y Cyngor Cefn Gwlad *'Ym mhob modd rhesymol: mynediad cynhwysol i'r awyr agored'*. Rydym yn credu bod hyn yn arbennig o berthnasol oherwydd bod egwyddorion MLlRh yn mynd i'r afael â hygyrchedd yn ei ystyr ehangaf ac yn ategu'r dull o barthau rheoli.

9. Byddai'n werth rhoi ystyriaeth bellach i iechyd a lles o fewn y cynllun. Byddem yn annog defnyddio ein Proffiliau Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru ar gyfer iechyd. Bydd hyn yn darparu data ar bwy sy'n gwneud beth, a beth maen nhw am wneud mwy ohono, yn ogystal â'r rhwystrau. Cyn hir bydd gan CNC Offeryn Asesu Effaith ar Iechyd. Mae hwn yn "offeryn sy'n cael ei ddatblygu" y bydd modd ei ddefnyddio i nodi effeithiau posibl a gwirioneddol gweithgareddau/prosiectau/lleoedd ar iechyd a lles. Fe'i lluniwyd yn benodol gyda phrosiectau hamdden/iechyd awyr agored mewn golwg.

10. Bydd y ddogfen hon yn y pen draw yn sail i strategaeth sylweddol i helpu i ddatrys rhai o heriau mwy arwyddocaol APCBB a bydd yn cael ei rhannu gyda chynulleidfa eang. Gan fod delweddau yn arfau pwerus, mae CNC yn teimlo y bydd angen gofal ychwanegol gyda'r delweddau a ddefnyddir yn y cyhoeddiad. Rydym yn cefnogi'r defnydd o ffotograffau sy'n dangos yn glir iawn yr heriau sylweddol a amlinellir yn y ddogfen ond byddem yn cynghori bod angen bod yn ofalus i sicrhau bod delweddau o'r fath yn briodol. Fel y nodwyd yn ein hymateb blaenorol, rydym yn gallu cynnig delweddau o rai o'r ardaloedd sy'n peri'r pryder mwyaf megis Ardal y Rhaeadrau a Waun Fach i'w defnyddio yn y cynllun hwn.

11. Mewn perthynas â pholisi Digwyddiadau'r Parc Cenedlaethol, mae CNC yn hapus i weithio gydag APCBB ar ddigwyddiadau (nifer o ddigwyddiadau yn defnyddio tir y ddau gorff). Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig bod y polisi digwyddiadau yn disgwyl i'r sawl sy'n cynnal digwyddiad gysylltu â CNC os yw'n defnyddio tir CNC. Cynhaliwyd digwyddiadau yn ddiweddar gan ddefnyddio tir CNC heb gysylltu â ni.

12. Mae CNC ar hyn o bryd yn datblygu Strategaeth Mynediad a Hamdden a fydd yn llywio'r gwaith a ddatblygir gennym yn y blynyddoedd i ddod. Gyda chyfres o egwyddorion craidd yn ganllaw, bydd rhan o'r gwaith yn cynnwys adolygiad o'r tirddaliadau sy'n eiddo i CNC neu a reolir ar hyn o bryd ganddo er mwyn nodi meysydd priodol ar gyfer datblygiadau hamdden. Byddai CNC yn croesawu'r cyfle i weithio gydag APCBB ar y rhaglen cynllunio gofodol hon.

Ffôn/Tel: 01873 73 7018

Ebost/Email: jonathan.saville@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Cantref Court, Brecon Road, Abergavenny, Monmouthshire, NP7 7AX
Llys Cantref, Ffordd Aberhonddu, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 7AX

I grynhoi, er ein bod yn dymuno gweld rhai mân newidiadau i'r cynllun, mae CNC yn croesawu Cynllun Rheoli Ymwelwyr Bannau Brycheiniog yn gynnes ac yn edrych ymlaen at weithio mewn partneriaeth i gynorthwyo APCBB i gyflawni'r nodau a amlinellir yn y ddogfen.

Fel bob amser, os oes angen unrhyw wybodaeth bellach neu eglurhad ar yr uchod, mae croeso i chi gysylltu â ni drwy Jonathan Saville, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Yr eiddoch yn gywir

**Ceri Daugherty**
**Arweinydd Tîm Partneriaethau - Mynediad, Hamdden a Chyllid Team Leader – Access, Recreation and Funding**

**Richard Jones**
**Arweinydd Tîm - PCBB, Sir Fynwy a Chymoedd y Dwyrain / Team Leader - BBNB, Monmouthshire and Eastern Valleys**

Ffôn/Tel: 01873 73 7018

Ebost/Email: jonathan.saville@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Cantref Court, Brecon Road, Abergavenny, Monmouthshire, NP7 7AX
Llys Cantref, Ffordd Aberhonddu, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 7AX

**Atodiad**

**CYNLLUN RHEOLI YMWELWYR BANNAU BRYCHEINIOG - DRAFFT**
**SYLWADAU MANWL ODDI WRTH CYFOETH NATURIOL CYMRU**

**Tudalen iii** Mae’r **Crynodeb Gweithredol** yn nodi (allan o gyd-destun) *"Mae cyfleoedd ar gyfer cydweithio agosach gyda’r heddlu i atal gweithgareddau annymunol megis defnyddio cerbydau oddi ar y ffordd"*. Er bod y datganiad hwn yn cyfeirio’n glir at adran 3.42 a Cham Gweithredu B.3, mae angen egluro ei fod ond yn weithgaredd annymunol i'r graddau ei fod yn fater i'r heddlu pan fo’n anghyfreithlon.

**Tudalen iii** Mae’r **Crynodeb Gweithredol** hefyd yn nodi *"Dylid cytuno ar y mathau o weithgareddau hamdden a all ddigwydd ar dir mynediad agored cyn ei bod yn ofynnol i ddarparwyr gweithgareddau hamdden fod â thrwyddedau arbennig"*. Er bod y datganiad hwn yn cyfeirio’n glir at adran 3.45 a Cham Gweithredu B.5, gall CNC gynnig cymorth sylweddol i helpu APCBB i ddatrys y materion hyn.

**Tudalen 2 (1.8-1.14)** Er mwyn rhoi cyd-destun ychwanegol, dylai'r adran hon amlinellu ei bod yn ymwneud â Strategaeth Twristiaeth Gynaliadwy 2012-16. Mae'r cynllun cyflawni ar gyfer y STG yn cyfeirio at ddatblygu cynllun rheoli ymwelwyr, felly dyma ddylai’r ddolen fod.

**Tudalen 16** - *Mae'r adran hon yn dwyn y teitl* - "Y bygythiad i fioamrywiaeth oherwydd aflonyddwch" – Nid "Bioamrywiaeth" yw'r term mwyaf priodol i'w ddefnyddio yma. Mae hamdden yn effeithio’n benodol ar gynefinoedd a rhywogaethau a dylid defnyddio’r termau hyn, oni bai bod yr adran hon yn *cyfeirio* at effeithiau ar rywogaethau yn unig. Efallai y gallai'r testun ddweud " Y bygythiad i gynefinoedd a rhywogaethau gan effeithiau hamdden"?

**Tudalen 16 2.40** – Rydych yn datgan bod yr ymchwil a gomisiynwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru yn mapio'r "... bygythiad damcaniaethol i fioamrywiaeth (ar ffurf rhywogaethau penodol)...” Roedd y gwaith hwn hefyd yn edrych ar gymhlethdod o gynefinoedd, priddoedd, rhywogaethau a pharamedrau ffisegol eraill, nid dim ond rhywogaethau. Defnyddiodd CCGC ddata o amrywiaeth o ffynonellau i fapio’r bygythiad damcaniaethol i wahanol gynefinoedd a rhywogaethau gan ystod o effeithiau, ac roedd aflonyddu gan bobl yn un ohonynt (gan gynnwys gweithgareddau hamdden, ond nid rheiny yn unig).

**Tudalen 16 2.41** - Ymhlith canfyddiadau eraill y gwaith Mapio Bygythiadau i Gynefinoedd y dylid eu cydnabod yn yr adroddiad hwn, cafwyd llawer o sylw i ardal yr ucheldir ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (a lleoliadau eraill) fel ardaloedd a oedd yn y categori uchaf yn gyffredinol o rai dan fygythiad yn sgil cymhlethdod o dderbynyddion (gan gynnwys, ond heb eu cyfyngu i’r bygythiad i rywogaethau). Mae'r canfyddiadau hyn yn cefnogi'r sylwadau a wnaed mewn rhannau eraill o ddrafft y Cynllun Rheoli (yr adran ar "ddosbarthiad gofodol yr effeithiau" (2.63-2.69) er enghraifft) a dylai hefyd dynnu sylw at hyn yn hytrach na dim ond cyfeirio at yr elfennau ar rywogaethau.

**Tudalen 16 2.42** – Mae CNC yn hapus i drafod casgliad yr ymchwil hwn a'i berthnasedd i Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gydag APCBB.

**Tudalen 11 2.23** (ac wedi hynny 3.78 a cham gweithredu C.11) – Mae CNC yn hapus i gynnig cyngor i APCBB ar ein profiadau wrth ddefnyddio teclynnau cyfri pobl ar dir a reolir gennym a rhannu'r data a gasglwyd gyda’r teclynnau hyn.

**Tudalen 22 (2.58-2.62)** - Mae angen i APCBB fod yn ofalus iawn ynglŷn â thynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng tystiolaeth wyddonol a barn rhanddeiliaid a chyfyngiadau defnyddio barn yn hytrach na thystiolaeth. Nid yw hyn yn golygu nad oes gan safbwyntiau rhanddeiliaid rôl; yn bendant mae rôl iddynt.

**Ffigurau 2.11-2.13** Mewn ymateb i'n sylwadau blaenorol, diolch i chi am gael gwared ar ffigur 2.12 ond yn sgil hynny mae bellach angen ail-rifo'r ffigurau eraill yn unol â hynny. Ar hyn o bryd maent yn awr yn mynd o ffigur 2.11 yn syth at ffigur 2.13.

**Tudalen 22** – Mae CNC yn nodi eich enghreifftiau o leoliadau 'pot mêl' yn Ffigur 2.16 ac y byddai'r diffiniadau ar gyfer y safleoedd hyn yn **2.63** yn dangos bod lefelau defnydd y safleoedd hyn yn cael eu rheoli'n dda ar y cyfan. Fodd bynnag, mae angen rheoli parhaus ac weithiau mathau gwell o reoli ar y lleoliadau hyn i osgoi eu cynnwys o dan eich diffiniad o "safleoedd dan bwysau amgylcheddol" a dylid cydnabod hyn. Mae'r enghraifft yn 2.65 o Wlad y Sgydau a'r fforwm a'r gwaith parhaus wedi bod yn esgor ar ganlyniadau ardderchog o ran rheoli ymwelwyr, ond mae pwysau a pheryglon i'r Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) yn parhau a bydd angen mwy o adnoddau.

**Tudalennau 29 a 30 - Camau Gweithredu A.1 A.2** - Er ein bod yn cefnogi'n gryf y dulliau a amlinellir yn y camau hyn, mae CNC yn awgrymu cryfhau'r rôl o ddatblygu'r sail dystiolaeth i gyflawni'r camau hyn.

**Tudalen 33 - Cam Gweithredu A.10** – Mae CNC yn argymell na ddylid llunio cynllun parcio ceir ar ei ben ei hun. Mae angen sicrhau ei fod yn rhan o'r ystyriaethau trafnidiaeth ehangach.

**Tudalennau 35-39 a chamau gweithredu "B"** – Mae CNC yn argymell bod APCBB yn ystyried defnyddio technoleg i ddarparu 'profiad ymwelwyr' ac fel arf i godi ymwybyddiaeth o ba mor fregus y mae amgylcheddau o'r fath i bobl sy'n dymuno profi ardaloedd mwy gwyllt, ond nad ydynt yn gallu am ba reswm bynnag.

**Tudalen 43 – Cam Gweithredu C.10** – Mae CNC yn cefnogi'n gryf yr argymhelliad i gomisiynu arolwg newydd ar raddfa fawr o ymwelwyr undydd ac yn teimlo y gall hefyd fod yn berthnasol i ymestyn hyn i'r rhai sy'n ymweld â digwyddiadau a drefnwyd.

**Atodiad 1** - Er ein bod yn cefnogi casglu a dadansoddi tystiolaeth sy'n gynhenid yn y dangosyddion arfaethedig, mae CNC yn dymuno mynegi rhybudd y gallai set mor feichus o dasgau casglu data ddatblygu'n nod anhyblyg ynddo'i hun ac mae ganddo'r potensial i atal dangosyddion eraill a awgrymwyd.

Ffôn/Tel: 01873 73 7018

Ebost/Email: jonathan.saville@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk www.naturalresourceswales.gov.uk

Cantref Court, Brecon Road, Abergavenny, Monmouthshire, NP7 7AX
Llys Cantref, Ffordd Aberhonddu, Y Fenni, Sir Fynwy, NP7 7AX